# Cais i gael eich cynnwys ar y Gofrestr

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

## Sut i wneud cais

### Cam un

Bydd angen i chi sefydlu cyfrif ar-lein yr NMC. Gallwch wneud hyn drwy fewngofnodi i'n gwefan, clicio ar 'NMC online' ar gornel dde uchaf y sgrin, clicio ar 'gofrestru' a dilyn y cyfarwyddiadau cam wrth gam i sefydlu cyfrif.

**online.nmc-uk.org/account/register**

### Cam dau

**Cwblhewch y ffurflen gais bapur yn llawn, gan ddefnyddio inc du a phrif lythrennau.**

Os yw wedi bod yn fwy na chwe mis ers i chi gwblhau eich cymhwyster bydd angen i chi lenwi ffurflen gyflogaeth. Bydd angen i chi hefyd ddarparu geirda gan gofrestrydd NMC arall sydd wedi'i gofrestru yn y rhan o'r gofrestr rydych yn gwneud cais iddi. Os ydych wedi bod yn ymarfer, rhaid i'ch cyflogwr gwblhau'r geirda yn lle hynny. **Cysylltwch â ni** a byddwn yn trefnu i'r ffurflenni hyn gael eu hanfon atoch.

### Cam tri

**Gallwch ddychwelyd hwn atom drwy sganio ac e-bostio'r ffurflenni i escalateukenquiries@nmc-uk.org, neu drwy'r post i'r cyfeiriad isod:**

UK Registration Team
NMC
23 Portland Place
London W1B 1PZ

### Cam pedwar

Byddwn yn cysylltu â chi i roi gwybod i chi ein bod wedi derbyn eich cais a chanlyniad yr asesiad. Caniatewch hyd at ddeg diwrnod gwaith ar gyfer hyn. Byddwn hefyd yn gadael i chi pryd y gallwch dalu eich ffi cofrestru ar-lein.

# Cwestiynau Cyffredin

## A oes terfyn amser i gofrestru'ch cymhwyster?

**Rhaid i chi gofrestru'ch cymhwyster o fewn pum mlynedd i'w gwblhau.**

Os gwnewch gais fwy na chwe mis ar ôl cwblhau'ch cymhwyster, bydd angen i chi ddarparu ychydig mwy o wybodaeth. Bydd angen i chi lenwi ffurflen gyflogaeth a darparu geirda gan gofrestrydd NMC arall sydd wedi'i gofrestru yn y rhan o'r gofrestr rydych yn gwneud cais iddi, neu eich cyflogwr os ydych wedi bod yn ymarfer. Bydd y ffurflenni ychwanegol yn cael eu darparu yn eich pecyn cais os yn berthnasol.

Os oes mwy na phum mlynedd ers i chi gwblhau eich cymhwyster, cysylltwch â ni a gallwn eich cynghori.

**escalateukenquiries@nmc-uk.org**
**020 7333 9333**
(mae ein canolfan gyswllt ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener 8am-5.45pm)

## Canllawiau ar iechyd a chymeriad

Mae angen i ni sicrhau bod gan nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio y sgiliau, y wybodaeth, yr iechyd a'r cymeriad i allu gofalu am bobl yn ddiogel. Fe wnawn hyn yn unol â'r safonau iechyd a chymeriad a nodir yn ein Cod.

## Gwneud datganiad iechyd neu gymeriad

Gofynnwn i ymgeiswyr gwblhau sawl datganiad mewn perthynas â'u hiechyd a'u cymeriad mewn unrhyw gais cofrestru (gan gynnwys aildderbyn ac ailddilysu). Mae hyn yn ein helpu i benderfynu a ydynt yn bodloni ein gofynion.

Darllenwch ein **canllawiau ar iechyd a chymeriad** i ddysgu beth sydd angen i chi ei ddatgan a phryd mae angen i chi wneud hyn.

## Sut rydym yn ystyried datganiadau iechyd a chymeriad

Byddwn yn ystyried pob cais fesul achos, gan ystyried yr holl amgylchiadau a gwybodaeth berthnasol. Efallai y byddwn yn gofyn i chi am ragor o wybodaeth i'n helpu i wneud penderfyniad.

Darllenwch ein **canllawiau ar y rhain** i ddysgu rhagor am sut rydym yn asesu iechyd a chymeriad fel rhan o geisiadau cofrestru.

# Ffurflen gais

| | |
|---|---|
| Enw(au) cyntaf | |
| Cyfenw | |
| Pin NMC | |
| Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth | |

## Datganiad hyfforddiant

| | | |
|---|---|---|
| Enw'r rhaglen hyfforddi rydych chi wedi'i chwblhau | | |
| Y rhan o'r gofrestr rydych yn gwneud cais iddi | ◯ Nyrsio oedolion<br>◯ Nyrsio plan<br>◯ Nyrsio Iechyd Meddwl | ◯ Nyrsio Anableddau Dysgu<br>◯ Bydwreigiaeth<br>◯ Cydymaith Nyrsio |

Rwy'n datgan fy mod wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol yn llwyddiannus ac wedi llwyddo yn yr arholiadau gofynnol i gofrestru'r cymhwyster hwn ar gofrestr yr NMC.

**Ydw** ◯ **Nac ydw** ◯

*Os nad ydych wedi cwblhau'r cymhwyster hwn yn llwyddiannus, yna cysylltwch â ni ar 020 7333 9333*

## Trefniant indemniad

Rwy'n datgan fy mod yn dal, neu y byddaf yn dal pan fyddaf yn dechrau gweithio, yswiriant priodol o dan drefniant indemniad mewn perthynas â'm hymarfer a byddaf yn gallu darparu tystiolaeth i gefnogi hyn os bydd yr NMC yn gofyn am hynny.

**Ydw** ◯ **Nac ydw** ◯

## Datganiad cymeriad

Rwy'n datgan bod fy nghymeriad yn ddigon da i'm galluogi i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol. Rwyf wedi darllen Canllawiau'r NMC ar Iechyd a Chymeriad ac yn datgan fy mod o gymeriad da yn unol â gofynion yr NMC:

**Ydw** ◯ **Nac ydw** ◯

A ydych wedi derbyn cyhuddiad, rhybuddiad, collfarn, neu ryddhad amodol gan yr heddlu nad yw wedi'i ddiogelu?

**Ydw** ◯ **Nac ydw** ◯

**Os ydych**, rhowch ragor o wybodaeth, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth y teimlwch sy'n cefnogi'ch cais.

A ydych erioed wedi bod yn destun canfyddiad bod eich addasrwydd i ymarfer wedi'i amharu gan gorff sy'n gyfrifol am reoleiddio neu drwyddedu proffesiwn (gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol)?

**Ydw** ◯ **Nac ydw** ◯

**Os ydych**, rhowch ragor o wybodaeth, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth y teimlwch sy'n cefnogi eich cais.

## Datganiad iechyd

Rwyf wedi darllen Canllawiau'r NMC ar Iechyd a Chymeriad ac yn datgan fy mod yn iach yn unol â gofynion yr NMC:

**Ydw** ◯ **Nac ydw** ◯

A oes gennych gyflwr iechyd a/neu anabledd sy'n effeithio ar eich gallu i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol ar hyn o bryd, neu a allai effeithio arno?

**Ydw** ◯ **Nac ydw** ◯

**Os oes**, a ydych yn rheoli'ch cyflwr iechyd a/neu anabledd fel y gallwch ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol?

**Ydw** ◯ **Nac ydw** ◯

**Os Nac ydych**, beth yw natur eich cyflwr?

| |
|---|
| |

Sut mae eich cyflwr iechyd ac/neu anabledd yn effeithio are eich gallu i ymarfer a sut ydych yn sicrhau nad ydych yn rhoi cleifion ac eraill mewn perygl?

| |
|---|
| |

Beth yw patrwm eich cyflwr, a yw'n fater gweithredol neu un sy'n gwaethygu?

| |
|---|
| |

**Parhewch ar ddalen ar wahân os oes angen a darparwch unrhyw dystiolaeth arall y teimlwch a fydd yn cefnogi eich cais.**

## Datganiad

Rwy'n cadarnhau bod y wybodaeth a ddarperir yn y cais hwn yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred. Deallaf, os bydd unrhyw ran o'r wybodaeth a ddarperir yn y cais hwn yn ffug, y gall yr NMC gymryd camau rheoleiddio yn fy erbyn, a gallai hyn arwain at fy nhynnu oddi ar y gofrestr. Rwyf hefyd yn deall y gallai unrhyw wybodaeth ffug arwain at oedi neu wrthod fy nghais.

Llofnod: ______________________________

Dyddiad: _________________